CYNGOR CYMUNED
LLANSTEFFAN A LLANYBRI
COMMUNITY COUNCIL

ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR
18fed GORFFENNAF 2022

COUNTY COUNCILLOR'S REPORT
JULY 18th 2022

CYNGOR SIR:

Mae hwn yn amser prysur iawn i gynghorwyr wrth geisio dala lan gyda gwaith y sir ar ôl Etholiad Mai ac ail-gychwyn gweithgareddau cymunedol yn dilyn pandemig Cofid-19. Byddwn yn parhau i dderbyn hyfforddiant am rai misoedd eto, tra bod y Cyngor Sir llawn a'r Pwyllgor Cynllunio yn gweithredu'n arferol erbyn hyn. Rydw i'n dod yn fwy cyfarwydd gydag achosion yn Sanclêr ac yn weithgar gyda chanolfan y Gât a chynlluniau'r dref ar gyfer datblygu Sanclêr yn hwb lleol dan bolisi'r 10 Tref.
Yn ogystal â hyn mae haf prysur o fewn y ward ar bwyllgorau'r Fiesta, yr Urdd, Neuaddau Llansteffan, Llanybri, Llangain a Llangynog. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda Neuadd Bancyfelin ar ôl yr haf.

COUNTY COUNCIL:

This is a very busy period for councillors as we attempt to catch up on post-May Election tasks and restart many community activities which were suspended during the Covid-19 pandemic. We will continue to receive training for many months yet, while Full County Council meetings and Planning Meetings are fully functional by now. I am becoming more familiar with issues in the St. Clears ward area - assisting with the Town Council's plans for Y Gât and the town Hub development plans as part of the 10 Towns initiative.
I have a busy summer ahead also with the Urdd Appeal Committee, the Fiesta, and various activities and plans with Llansteffan, Llanybri, Llangain and Llangynog Halls. I look forward to working with Bancyfelin Hall after the summer.

HEDDLU DYFED-POWYS:

Bum mewn cyfarfod gyda Heddlu Dyfed-Powys i gael ddiweddariad ar lefelau trosedd a gweithgareddau eraill o fewn y ward. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd hyn yn gyfle i holi, dod ag achosion newydd gerbron a thrafod gyda chynrychiolwyr wardiau cyfagos.

DYFED-POWYS POLICE:

I attended a meeting with Dyfed-Powys Police for updates on crime levels and other activities in our ward. These regular meetings are an opportunity to ask questions, report issues and discuss common problems with other local ward representatives.

CASGLU COCOS:

Bum mewn cyfarfod gydag Adran Pysgodfeydd y Senedd gyda rhanddeiliaid eraill. Trafodwyd cryfderau a gwendidau rheolaeth tymor 2021 a chynlluniau ar gyfer tymor 2022. Mae'r rheoliadau casglu wedi eu tynhau eto eleni, a gobeithiwn y bydd hyn yn helpu i reoli'r diwydiant yn lleol. Gweler gwefan y Cyngor Cymuned am fanylion agor a chau'r gwelyau cocos.

COCKLE GATHERING:

I attended a meeting with the Welsh Government Fisheries department and other stakeholders. We discussed the successes and failures of managing the 2021 season and the plans for the 2022 season.
The regulations have been tightened again this year and we hope this will help to manage the industry locally. Please see the Community Council website for details of opening and closing of the cockle beds.

YSTAFELL NEWYDDION Y SIR:

Ewch i Ystafell Newyddion Cyngor Sir Gâr am y newyddion diweddaraf yn ein hardal:
https://newyddion.sirgar.llyw.cymru/

COUNTY NEWSROOM:

Please visit the Carmarthenshire County Council Newsroom for all the latest local news: https://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/